Cofnodion

Cyngor

Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Medi 2023

Amser: 5.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr C Reeks, S Cocks, E Stowell-Corten, J Harris, A Screen, T Harvey, M Howells, P Bright, J Peterson, A Pimm, D Batrouni, D Jenkins, P Drewett, B Davies, S Adan, M Pimm, J Reynolds, R Howells, A Sterry, J Jones, G Horton, J Cleverly, P Cockeram, D Davies, M Al-Nuaimi, M Evans, D Harvey, M Kellaway, R Mogford, J Mudd, M Spencer, K Thomas, C Townsend, K Whitehead, J Clarke, Y Forsey, P Hourahine, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, A Morris, F Hussain and B Perkins

---

1. **Materion Rhagarweiniol**

1.i Ymddiheuriadau
Y Cynghorwyr Linton, Jordan, James, Hughes a Fouweather.

1.ii Datganiadau Buddiannau
Dim.

1.iii Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod rhai Aelodau wedi gadael cyfarfod diwethaf y Cyngor yn gynnar. Nododd yr Aelod Llywyddol ei fod wedi gweld hyn yn digwydd yn ystod cyfarfodydd eraill hefyd. Gofynnodd yr Aelod Llywyddol i'r Aelodau aros tan ddiwedd y cyfarfod neu roi eu hymddiheuriadau i'r trefnydd cyn y cyfarfod os oes rhaid iddynt adael yn gynnar.

Nododd yr Aelod Llywyddol hefyd fod yr eitem ar gyfer Cwestiynau'r Arweinydd yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor ychydig yn fyr na'r amser a ddyrannwyd a gwnaeth ymddiheuro am hyn. Nododd yr Aelod Llywyddol fod cloc newydd ar waith i fonitro eitemau agenda wedi'u hamseru i atal gwallau pellach.

2. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2023 yn amodol ar y canlynol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a'i gais blaenorol bod angen dosbarthu cofnodion mewn modd mwy amserol ac nid wrth ddosbarthu'r agenda. Gofynnodd y Cynghorydd Evans hefyd i'r Aelod Llywyddol edrych ar hyn, fodd bynnag, ni chofnodwyd hyn. Cafodd y cofnodion o 18 Gorffennaf eu dosbarthu eto ar 20 Medi. Ymddiheurodd yr Aelod Llywyddol a dywedodd y byddai'n ymchwilio i gais y Cynghorydd Evans.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at Eitem 11: Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor,

blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, lle cofnodwyd ei fod wedi cyfeirio at y swm o £1.5m ar gyfer arwyddion stryd yn unig ac ni allai'r Cynghorydd Evans gofio a oedd wedi dweud bod y Cyngor wedi cael £600,000 neu wedi gwario £32M ar arwyddion ond roedd hyn yn anghywir.

3. **Penodiadau**

Ystyried y penodiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad

Cynigiodd y Cynghorydd Clarke y penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad, fel y cytunwyd gan y Rheolwyr Busnes fel y nodir isod.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Reeks.

Penderfynwyd: Bod y penodiadau canlynol yn cael eu cytuno.

Penodiadau Cyrff Llywodraethu

Corff Llywodraethu	**Penodiadau/Ymddiswyddiadau**	**Enw**
Ysgol Gynradd Glan Llyn	Ailbenodiad	Howard Mason
Ysgol Gynradd Glan Llyn	Ailbenodiad	Martyn Kellaway
Ysgol Gynradd Glasllwch	Ailbenodiad	Allan Hyland
Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilî	Penodiad	Jackie Littlejohns
Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilî	Penodiad	David Hopkins
Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilî	Penodiad	John Reynolds
Ysgol Basaleg	Penodiad	Chris Lacey
Ysgol Uwchradd Llan-wern	Penodiad	Kath Bevan
Ysgol Gynradd Crindau	Penodiad	Gill Lee
Ysgol Gynradd High Cross	Penodiad	Chris Reeks
Ysgol Gyfun Gwent Is-Coed	Penodiad	Lona Jones-Campbell
Ysgol Gynradd Eveswell a Somerton	Penodiad	Alex Pimm
Ysgol Maes Ebbw	Penodiad	Dimitri Batrouni
Ysgol Maes Ebbw	Ymddiswyddo	Stephen Marshall
Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilî	Ymddiswyddo	Elizabeth Thomas
Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilî	Ymddiswyddo	Chris Lacey
Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilî	Ymddiswyddo	Martin Bentley
Ysgol Basaleg	Ymddiswyddo	Gavin Horton
Ysgol Uwchradd Llan-wern	Ymddiswyddo	Mandy Shide
Ysgol Gynradd Crindau	Ymddiswyddo	Colin Seeney
Ysgol Gynradd High Cross	Ymddiswyddo	John Reynolds
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff	Ymddiswyddo	Alex Pimm

4. **Materion yr Heddlu**

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol Uwch-arolygydd Heddlu Gwent, J White, a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cyngor am faterion yr heddlu yn Nwyrain, Gorllewin a Chanol Casnewydd.

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol yr Arweinydd i siarad gerbron yr Uwch-arolygydd White.

Croesawodd yr Arweinydd yr Uwch-arolygydd White a diolchodd i'r heddlu ar ran Cyngor Dinas Casnewydd am eu cymorth plismona a wnaed yn ystod y Digwyddiad Pride. Dywedodd yr Arweinydd
fod hyn wedi bod yn enghraifft ragorol o blismona cymunedol a chanmolodd yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (SCCHau) a fu'n ymgysylltu â'r cyhoedd ar y diwrnod.

Dywedodd yr Arweinydd fod amrywiant mewn ymgysylltiad yr heddlu ag aelodau etholedig yn golygu bod cyfathrebu a gohebiaeth a dderbyniwyd yn wahanol yng ngorllewin Casnewydd o gymharu â'r dwyrain, lle roedd cydweithwyr wardiau wedi cael gwybod am newidiadau diweddar i'r heddlu. Gofynnodd yr Arweinydd a fyddai'r Uwch-arolygydd yn mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau bod holl gydweithwyr wardiau yng Nghasnewydd yn cael eu hysbysu a'u diweddaru.

Cytunodd yr Uwch-arolygydd White fod anghyfartaledd. O ran y newidiadau diweddar i orllewin Casnewydd, roedd Sarjant Merve Priest yn camu i'r adwy fel Arolygydd ac roedd Prif Arolygydd newydd, Amanda Thomas, a oedd yn glir yn ei barn ynghylch cysondeb ymgysylltu ag aelodau etholedig a thrigolion a byddai hyn i'w weld yn yr holl gyfathrebu wrth symud ymlaen.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at fonitro terfynau cyflymder 30mya ac 20mya gan yr heddlu a gofynnodd iddynt edrych ar faterion goryrru ar hyd Almond Drive, y tu allan i'r ysgol gynradd. Er y gallai swyddogion gorfodi'r Cyngor ddangos rhywfaint o weithgarwch, byddai presenoldeb SCCHau hefyd yn cael ei groesawu, o gwmpas oriau ysgol.

<u>Cwestiynau i'r Heddlu a ofynnwyd gan y Cynghorwyr:</u>

- Gofynnodd y Cynghorydd Evans gwestiwn damcaniaethol am ei ardd gefn a dywedodd yr Uwch-arolygydd y byddai achosion o'r fath yn cael eu trin fesul achos ac y gellid eu hystyried yn ddifrod troseddol, ond byddai sefyllfaoedd tebyg yn cael eu gwirio gydag asiantaethau eraill fel Dŵr Cymru cyn penderfynu ar hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Evans pa bwerau barnwrol oedd gan yr heddlu mewn perthynas â theithwyr a pha mor anodd oedd hyn i'w orfodi. Dywedodd yr Uwch-arolygydd White fod Adran 60 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 2022 wedi'i chyflwyno i roi mwy o bwerau i'r heddlu ddelio â gwersylloedd anghyfreithlon, fodd bynnag, roedd yn rhaid bodloni tri maen prawf dan y ddeddfwriaeth hon cyn y gellid gorfodi hyn: difrod sylweddol i dir, aflonyddwch sylweddol, a gofid sylweddol. Roedd gwersylloedd wedi sefydlu yng Nghasnewydd yn y gorffennol gyda phocedi o achosion o ddwyn, difrod ac anhrefn ond ni ystyriwyd hyn yn sylweddol. Er bod yr Uwch-arolygydd yn deall rhwystredigaeth trigolion, dywedodd canllawiau o Bolisi Llywodraeth Cymru mai'r heddlu sy'n penderfynu a yw rhywbeth yn sylweddol.

- Cysylltodd trigolion oedrannus â'r Cynghorydd Jenkins i ofyn beth ellid ei wneud i fynd i'r afael â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghefn Asda ym Mhilgwenlli Cadarnhaodd yr Uwch-arolygydd White fod patrolau pwrpasol yn cael eu cynnal o amgylch yr ardal. Mae gan yr heddlu bwerau a Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMCau) ar waith y gallant eu defnyddio. Roedd yr Uwch-arolygydd o'r

farn bod cysylltiadau â'r gymuned yn bwysig, a byddai mwy o batrolau'n cael eu cynnal. Dywedodd y Cynghorydd Jenkins fod y digwyddiadau'n digwydd yn gyson, byddai'r bobl ifanc yn gwasgaru ar ôl i'r heddlu gael eu ffonio, ond byddent yn dychwelyd ar ôl i'r heddlu adael. Cadarnhaodd yr Uwch-arolygydd White y byddai hyn yn cael ei godi gyda'r Sarjant newydd yn yr ardal, Chris Johnson a fyddai'n trafod pryderon gyda'r Cynghorydd ac yn rhoi cynllun gweithredu ar waith.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Howells at broblemau a oedd yn digwydd o amgylch Siopau Pontfaen a gofynnodd am ddiweddariad ar sut y byddai'r problemau'n cael sylw. Dywedodd y Cynghorydd Howells fod yr Arolygydd lleol wedi bod yn rhagweithiol wrth gyhoeddi gorchmynion gwasgaru a helpodd yn y byrdymor; fodd bynnag, roedd cynghorwyr ward yn chwilio am ateb hirdymor. Cadarnhaodd yr Uwch-arolygydd fod gwaith dadansoddol wedi'i wneud i weld ble roedd y difrod yn digwydd ac i nodi'r sawl a ddrwgdybir; roedd hyn yn cynnwys gwylio fideos teledu cylch cyfyng ac ymgysylltu â'r gymuned. Byddai patrolau pwrpasol yn yr ardaloedd i roi sicrwydd i Gynghorwyr a'r gymuned. Mewn gweithrediad diweddar, atafaelwyd saith e-feic, o fewn ardal Llyswyry a Phontfaen. Gofynnodd yr Aelod Llywyddol beth ddigwyddodd i'r e-feiciau ar ôl iddynt

gael eu hatafaelu. Dywedodd yr Uwch-arolygydd y byddai'r rhan fwyaf o'r e-feiciau yn cael eu gwasgu, ac y byddai hyn yn cael ei ffilmio a'i rannu trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Cadarnhaodd yr Uwch-arolygydd ei fod yn trafod defnyddio e-feiciau a atafaelwyd fel rhan o fflyd yr heddlu, gan fod yr Heddlu Metropolitanaidd wedi gwneud hyn, ac wedi nodi hyfforddiant a pholisïau priodol.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Reeks at y cynnydd mewn troseddau ar draws Casnewydd. Mewn cyfarfod ward diweddar ar gyfer Gogledd Tŷ-du, gofynnodd trigolion a oedd hyn oherwydd bod y Cyngor yn diffodd y goleuadau yn ystod y nos. Dywedodd yr Uwch-arolygydd fod y troseddau dwyn y cyfeiriwyd atynt gan y Cynghorydd Reeks wedi digwydd yn ystod y dydd, tra bod nifer y troseddau yn ystod y nos fel byrgleriaethau preswyl wedi gostwng.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Al-Nuaimi at y newid diweddar mewn terfynau cyflymder yng Nghymru a'r ffaith ei fod yn teimlo bod arwyddion yn bwysig i nodi lle dylai gyrwyr gyfyngu eu cyflymder i 20mya. Dywedodd yr Uwch-arolygydd mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw arwyddion a chyfeiriodd at Reolau'r Ffordd Fawr; mae lampau stryd sy'n 200 llath ar wahân yn nodi terfyn cyflymder o 30mya, ond byddai hyn bellach yn derfyn 20mya oni bai bod arwyddion sy'n dangos fel arall.

- Dywedodd y Cynghorydd Drewett ei bod yn Noson Tân Gwyllt yn fuan a gofynnodd am sicrwydd o ran presenoldeb yr heddlu yn Ridgeway. Dywedodd yr Uwch-arolygydd White fod yr heddlu'n paratoi ar gyfer Noson Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt ac yn rhoi embargos ar swyddogion yr heddlu yn gofyn am wyliau blynyddol i sicrhau'r adnoddau mwyaf posibl ynghyd â'r Gwasanaethau Tân.

- Roedd y Cynghorydd Hourahine am sôn am dri SCCH a oedd yn gwneud gwaith rhagorol yn Sain Silian ac eisiau rhoi eu henwau cyntaf i'r Uwch-arolygydd, Annabel, Caitlin, a Clare.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Morris at fideo teledu cylch cyfyng yn dangos digwyddiad yn ymwneud â chyffuriau ar e-feic, a gofynnodd a allai drosglwyddo'r wybodaeth i'r Uwch-arolygydd. Cadarnhaodd yr Uwch-arolygydd y byddai'n cysylltu y tu allan i'r cyfarfod.

- Diolchodd y Cynghorydd Batrouni i'r swyddogion am ymladd trosedd ar draws y ddinas. Cyfeiriodd y Cynghorydd Batrouni at y sylwadau a wnaed gan yr Uwch-arolygydd am y cynnydd mewn troseddau a gofynnodd a oedd hyn yn ymwneud â'r argyfwng costau byw. Dywedodd yr Uwch-arolygydd White fod y rhan fwyaf o

droseddau meddiangar o ganlyniad i droseddwyr cyson iawn. Roedd yr Uwch-arolygydd o'r farn bod angen i'r heddlu ymgysylltu â throseddwyr adeg prawf yn llawer cynt i atal y cylch. Nid oedd yr argyfwng costau byw yn helpu pethau, ond o brofiad personol roedd y rhai a oedd yn cyflawni troseddau yn droseddwyr cyson iawn.

Roedd y Cynghorydd Hussain wedi mynd i gymhorthfa'r Heddlu yn Ward Fictoria gyda SCCHau lle mynegodd trigolion bryderon am y Gwesty Box yn Llanwern Street. Diolchodd y Cynghorydd Hussain i'r heddlu am y diweddariad ac roedd wedi trosglwyddo'r wybodaeth i'r trigolion. Yn ogystal, bu llawer o gwynion ynglŷn â Cyril Street a gofynnodd y Cynghorydd Hussain a oedd unrhyw ddiweddariad yn ymwneud â'r eiddo. Dywedodd y Cynghorydd Hussain hefyd fod Arolygydd Giles y SCCHau wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gydweithwyr wardiau ac felly roedd am ddweud diolch. Roedd yr Uwch-arolygydd White yn ymwybodol bod y Gwesty Box yn achosi problemau sylweddol i drigolion. Mae'r achos yn parhau ac mae'r heddlu'n gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys cau i atal hyn rhag digwydd dro ar ôl tro. Byddai'r Uwch-arolygydd yn gofyn i'r Arolygydd Giles siarad â'r Cynghorydd Hussain y tu allan i'r cyfarfod am safleoedd problemus gyda'r ardal, gan ei fod yn awyddus i roi cynigion cau ar waith.

5. **Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol yr Arweinydd i gyflwyno'r adroddiad cyntaf ar yr agenda, Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cyngor i gymeradwyo'r Strategaeth a Ffefrir ac i ddechrau'r ymgynghoriad ffurfiol â'r gymuned ym mis Hydref.

Roedd yr argymhelliad hwn yn unol â'r amserlen yn y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cyngor ac a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2023.

Mae bod â Chynllun Datblygu Lleol cyfredol ac addas at y diben nid yn unig yn bwysig ar gyfer gweld y ddinas yn tyfu ac yn ffynnu hyd at 2036 ond mae hefyd yn ofyniad statudol.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn gam ffurfiol yn natblygiad CDLlN ac mae pwrpas y Strategaeth a Ffefrir yn amlinellu dull a awgrymir o ran ymdrin â datblygu newydd, twf yn y dyfodol a chadwraeth.

Mae Casnewydd wedi'i nodi fel Ardal Dwf Genedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040. Dyma oedd haen uchaf y Cynllun Datblygu at ddibenion cynllunio ac mae angen i bob cynllun lefel leol, gan gynnwys ein Cynllun Datblygu Lleol, fod yn unol â'r cynllun cenedlaethol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Opsiynau Twf a Gofodol a defnyddiwyd yr ymatebion a dderbyniwyd i lywio'r Strategaeth a Ffefrir arfaethedig. Derbyniwyd 68 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hyn a'r ymatebion arfaethedig eu hystyried gan y Cabinet ar 13 Medi a chymeradwywyd yr argymhellion.

Ochr yn ochr â'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd, defnyddiwyd llawer iawn o dystiolaeth gefndir ac adroddiadau i lywio'r Strategaeth a Ffefrir.

Er mwyn datblygu Strategaeth a Ffefrir yn ffurfiol, mae angen ymgynghori ffurfiol pellach. Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai hyn fod am o leiaf chwe wythnos, ond cynigiwyd y byddai'r ymgynghoriad yn dechrau ym mis Hydref ac yn rhedeg am wyth wythnos. Roedd y cynllun ymgynghori yn cynnwys dulliau amrywiol o ymgysylltu ac ymarferion i sicrhau bod cynulleidfa eang yn cael ei chyrraedd.

Ystyriodd y Pwyllgor Craffu Lleoedd a Chorfforaethol y Strategaeth a Ffefrir a'r cynigion ar 11 Medi. Cafwyd trafodaeth gadarnhaol ar y mater hwn ac roedd y Pwyllgor yn fodlon cymeradwyo'r ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd. Croesawodd yr Arweinydd y cais gan Aelodau'r Pwyllgor y dylid ystyried yn ofalus sut i hyrwyddo'r ymgynghoriad a chodi ymwybyddiaeth ohono.

Mae targed i hwyluso'r gwaith o ddatblygu 570 o gartrefi newydd a chreu 8,640 o swyddi newydd wedi'i osod dan y Strategaeth a Ffefrir**.** Gyda'r lefel hon o dwf, bydd Casnewydd yn gyrchfan lle bydd pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld.

Er mwyn cyflawni'r twf hwn, cynigiwyd mabwysiadu strategaeth ofodol hybrid. Byddai hyn yn canolbwyntio ar Dir a Ddatblygwyd yn Flaenorol yn ogystal â chydnabod y byddai angen rhywfaint o faes glas o fewn aneddiadau a chyfagos â nhw a rhai datblygiadau llai mewn pentrefi. Amlinellir manylion safleoedd allweddol arfaethedig â mwy na 300 o anheddau yn y strategaeth.

Mae'r strategaeth hon ar gyfer ymgynghori, ac mae safbwyntiau a barn yr holl randdeiliaid yn cael eu croesawu. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried yn fanwl a'u defnyddio i lywio'r Cynllun Adneuo a fydd yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Cabinet tua'r adeg hon y flwyddyn nesaf.

Cafodd yr adroddiad ei eilio gan y Cynghorydd Clarke.

<u>Sylwadau gan y Cynghorwyr:</u>

- Cefnogodd y Cynghorydd Evans y cynnig ar gyfer ymgynghori a nododd fod ceisiadau o fewn Ward Allt-yr-ynn i adeiladu ar dir llain las. Teimlai'r Cynghorydd Evans y dylai adeiladu ar dir llain las fod yn ddewis olaf a gofynnodd a allai'r Aelodau dderbyn gwybodaeth ar eu wardiau eu hunain.

- Cefnogodd y Cynghorydd D Davies y cynnig, gan ychwanegu bod cyfrifiad 2021 yn dangos bod Casnewydd yn ddinas sy'n aeddfedu a'i bod yn dod yn lle deniadol i ymgartrefu. Mae angen mwy o dai i gynnal yr economi ffyniannus.

- Dywedodd y Cynghorydd Clarke ei fod ef, fel Aelod Cabinet, yn gyfrifol am Gynllunio a'i fod yn hapus i gymeradwyo'r adroddiad. Nid yw mabwysiadu CDLIN yn wahanol i'r broses ceisiadau cynllunio ac mae'n hanfodol casglu barn pobl. Ystyriodd y Cynghorydd Clarke y lefelau ymateb cadarnhaol gyda bron i 70 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar opsiynau twf gan y gymuned. Roedd yr ymatebion hyn wedi llunio'r strategaeth a gyflwynwyd i'r Cyngor. Aeth y Cynghorydd Clarke i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad - Lleoedd a chroesawodd yr adborth cadarnhaol. Diolchodd y Cynghorydd Clarke i'r swyddogion am eu gwaith sylweddol ac roedd yn hyderus bod y strategaeth yn addas o ran uchelgais tra'n parhau i fod yn gyraeddadwy.

Penderfynwyd:

Gwnaeth y Cyngor gymeradwyo papur ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir, a roddwyd yn Atodiad A a dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol â'r gymuned.

6. **Adroddiad Blynyddol Newid Hinsawdd**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol mai'r adroddiad nesaf i'w gyflwyno gan yr Arweinydd oedd Adroddiad Blynyddol y Cynllun Newid Hinsawdd ar gyfer 2022-2023.

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno allyriadau sefydliadol ar gyfer 2022-23 ynghyd â diweddariad ar y prosiectau a oedd yn cefnogi ymdrechion datgarboneiddio'r Cyngor.

Dyma adroddiad blynyddol llawn cyntaf y Cynllun Newid Hinsawdd a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2022.

Mae'r Cynllun Newid Hinsawdd yn nodi sut y byddai'r sefydliad yn cyflawni Sero Net erbyn 2030 yn unol ag ymrwymiadau.

O ran yr adroddiad ei hun, ar y cyfan, roedd allyriadau carbon wedi gostwng, ac eithrio caffael, ac allyriadau gweithredol; roedd y ffigwr hwn wedi gostwng 7.69% ers 2021-2022. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r hyn a adroddwyd yn flaenorol oherwydd newidiadau yn y canllawiau adrodd a chychwyn ymgysylltu â'n cadwyn gyflenwi i ddechrau llunio ffigyrau manylach sy'n benodol i Gasnewydd.

Gyda Chynllun Ynni Ardal Leol ledled y ddinas ar waith, mae camau gweithredu ym mlwyddyn 2 y cynllun newid hinsawdd â ffocws llawer tynnach ar allyriadau sefydliadol. Mae gan y rhan fwyaf o'r camau gweithredu ar gyfer Blwyddyn 2 y cynllun ddyddiadau cwblhau yn ystod y flwyddyn.

Manylyn pwysig i'w nodi yw'r argymhelliad ar gyfer gwahanu Cynlluniau Gweithredu o'r prif Gynllun Sefydliadol. Byddai Cynlluniau Gweithredu ar gael i'r cyhoedd, ond mae eu gwahanu o gorff y Cynllun ei hun yn golygu nad oes angen diwygio ac ailgyhoeddi'r Cynllun cyfan yn flynyddol.

Roedd prosiectau Newid Hinsawdd nodedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Cyflwyno hyfforddiant Llythrennedd Carbon i aelodau ac uwch reolwyr a chyflawni statws Achrediad Efydd.
- Sefydlu'r Rhwydwaith Newid Hinsawdd i Staff gyda 30 o aelodau sy'n cyfarfod bob mis.
- Gosod paneli solar pellach drwy Egni, y cwmni solar cydweithredol cymunedol.

- Gosod Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer yn Ysgol Gyfun Caerllion.
- Cyflawni Statws Dinas Coed y Byd i gydnabod y gwaith o reoli stociau coed.
- Cwblhau Pont Devon Place i gefnogi teithio llesol ar draws y ddinas.
- Newidiadau i brosesau caffael i gefnogi datgarboneiddio trwy'r pryniannau mwy a wneir, yn fuan byddai angen cymeradwyaeth gan y tîm newid hinsawdd ar bob caffaeliad dros £75,000.

Yn y flwyddyn i ddod, y prif feysydd ffocws ar gyfer y Cynllun Newid Hinsawdd fyddai datgarboneiddio gwres yn adeiladau'r Cyngor yn barhaus, dileu'r angen i ddefnyddio tanwydd ffosil lle bo hynny'n bosibl, darparu mannau gwefru cerbydau trydan yn eang, gwerthuso'r potensial datgarboneiddio ar gyfer tir sy'n eiddo i'r Cyngor a datblygu cynlluniau cyfathrebu mewnol ac allanol i sicrhau bod cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â staff a'r cyhoedd.

Cafodd yr adroddiad ei eilio gan y Cynghorydd Forsey.

<u>Sylwadau gan y Cynghorwyr:</u>

- Ystyriodd y Cynghorydd Forsey y cynnydd dan yr adroddiad cynhwysfawr ar ôl-ffitio adeiladau, disodli cerbydau fflyd, a chael Statws Achrediad Llythrennedd Carbon Efydd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Forsey at ddigwyddiadau tywydd eithafol a'r effaith ar fywydau a chynhyrchu bwyd. Felly, roedd yn hanfodol ein bod yn parhau â'r gwaith hwn. Daeth y Cynghorydd Forsey i'r casgliad, er bod cynnydd da wedi'i wneud, ei bod yn hanfodol bod hyn yn parhau.

- Dywedodd y Cynghorydd Davies fod gan y Cyngor ymrwymiad i gyflawni sero net erbyn 2030 a ledled y ddinas erbyn 2050. Roedd y Cynghorydd Davies yn falch bod y cynllun eisoes yn cyflawni canlyniadau, fel lleihau allyriadau carbon 29%, a gwella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau.

- Roedd y Cynghorydd Corten yn teimlo'n falch o gynnydd dan y cynllun newid hinsawdd ac yn teimlo bod yr holl gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â hyn fel dinas yn ychwanegu at swm mwy.

- Daeth y Cynghorydd Morris i'r casgliad bod llawer o newidiadau wedi bod i ddisgwyliadau o ran ymateb i'r newid hinsawdd, ac roedd angen i'r Cyngor gydweithio i fynd i'r afael â hyn.

Galwodd y Cynghorydd Evans am ddull pragmatig, cymesur a realistig o fynd i'r afael â newid hinsawdd i'r rhai ar bob lefel incwm ac roedd yn teimlo bod angen i'r Cyngor gydweithio i fynd i'r afael â hyn.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Routley at allyriadau traffig yn Nhrefesgob a Langstone sy'n cael eu hystyried yn bryder ansawdd aer.

- Dywedodd y Cynghorydd Hourahine ei fod wedi mynd i gyfarfod ardal aer glân ar gyfer Chepstow a Caerleon Road a'r arwydd gan y swyddogion oedd ei fod wedi gwella'n sylweddol ac y byddai'n cael ei ailasesu fel ardal aer glân. Roedd y Cynghorydd Hourahine o'r farn mai hyn yn bennaf oherwydd y cerbydau trydan a'r bysus trydan sydd wedi'u cyflwyno.

Crynhodd yr Arweinydd gan ddiolch i bawb am eu cyfraniad. Daeth yr Arweinydd i'r casgliad bod yr adroddiad yn nodi llwyddiannau mawr ac roedd eisiau cydnabod ymrwymiad y swyddogion.

Penderfynwyd:

Adolygodd y Cyngor y cynnydd a chymeradwyodd yr Adroddiad Blynyddol.

7. **Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) Arcêd y Farchnad**

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai i gyflwyno'r adroddiad.

Gofynnwyd i gydweithwyr y Cyngor ystyried a chytuno ar adnewyddu'r GDMC ar gyfer Arcêd y Farchnad.

Mae'r arcêd yn ardal bwysig yng nghanol y ddinas ac mae wedi bod yn destun llawer o welliant ac adfywio dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn 2020, ystyriodd y Cyngor gais tebyg fel ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr arcêd yn ystod y nos lle digwyddodd fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol arall.

Roedd gorchymyn 2020 yn cynnwys darpariaeth i osod gatiau ar y naill ben a'r llall yn ystod y nos.

Gan fod yr arcêd yn hawl dramwy, amlygwyd llwybr arall ac ymgynghorwyd arno. Mynegodd yr aelodau o'r cyhoedd a'r busnesau a ymatebodd i'r ymgynghoriad gefnogaeth gref i'r dull gweithredu hwn.

Gwnaeth y mesur unigol hwn bron dileu ymddygiad gwrthgymdeithasol a galluogodd fusnesau i ddychwelyd i'r ardal gyda mwy o hyder.

Eiliodd y Cynghorydd Mudd yr adroddiad.

Sylwadau gan y Cynghorwyr:

- Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod ymrwymiad enfawr yn natblygiad yr ardaloedd hyn o'r ddinas ac roedd yn bwysig eu hamddiffyn er mwynhad trigolion.

- Eiliodd yr Arweinydd y cynnig a gwnaeth sylwadau ar adfywio Arcêd y Farchnad. Bwriad y GDMC oedd diogelu'r gofod hwn a'r gobaith oedd y byddai'r cydweithwyr yn cefnogi'r adroddiad.

Penderfynwyd:

Cymeradwyodd y Cyngor adnewyddu GDMC Arcêd y Farchnad.

8. **Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) Maesglas**

Symudodd yr Aelod Llywyddol i'r eitem nesaf ar yr agenda, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai.

Gofynnwyd i gydweithwyr y Cyngor ystyried a chytuno ar adfer y GDMC ar gyfer ardal ym Maesglas.

Yn 2018 ystyriodd y Cyngor gais tebyg fel ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol gan drigolion a busnesau yn yr ardal.

Roedd y gorchymyn yn cynnwys cyfyngu ar fynediad i lwybr cyhoeddus y tu ôl i siopau Maesglas ar Cardiff Road.

Gan fod y llwybr hwnnw'n hawl dramwy, amlygwyd llwybr arall ac ymgynghorwyd arno.

Cafwyd lefel uchel o ymateb i'r ymgynghoriad, a nododd y cyhoedd a'r busnesau a ymatebodd fod problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn aros yn yr ardal ac y byddai'r rheolaethau ychwanegol hyn yn helpu i fynd i'r afael â nhw.

Nodwyd bod llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn mynegi dymuniad i ardal y GDMC gael ei hehangu. Roedd y swyddogion yn bwriadu ystyried yr opsiwn hwn yn ddi-oed ac efallai y byddant yn ystyried ehangu yn ystod y misoedd nesaf.

Eiliodd y Cynghorydd Marshall yr adroddiad.

Sylwadau gan y Cynghorwyr:

- Cefnogodd y Cynghorydd Perkins adfer GDMC Maesglas a chyfeiriodd at yr ymateb cadarnhaol gan y trigolion i'r GDMC.

- Roedd y Cynghorydd Mark Howells o'r farn bod hwn yn gam rhagweithiol a gymerwyd gan y Cyngor i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r gymuned ac argymhellodd fod y swyddogion yn ystyried GDMCau mewn ardaloedd eraill sy'n profi problemau tebyg.

- Diolchodd y Cynghorydd Batrouni i’r swyddogion, y cynghorwyr a J Bryant, AoS am eu rhan a chefnogodd yr adroddiad yn llwyr.

- Eiliodd y Cynghorydd Marshall yr adroddiad i fynd i'r afael â'r problemau ym Maesglas a gwnaeth sylwadau ar y gefnogaeth gan drigolion yn yr adborth i'r ymgynghoriad.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Morris at bwysigrwydd ymgysylltu â phobl ifanc a gobeithiai y gellid rhoi mesurau ar waith i gefnogi ymgysylltu a gweithgareddau yn yr ardal hon.

Penderfynwyd:

Cytunodd y Cyngor i GDMC yn ardal Maesglas.

9. **Trefniadau Craffu Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru**

Gwahoddodd yr Arweinydd y Swyddog Monitro i gyflwyno'r adroddiad olaf ar yr agenda, dyma'r cynnig i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (CTCh) Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC) gael ei benodi i gyflawni swyddogaethau craffu'r awdurdod mewn perthynas â Chydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru (CbCDdC).

Sefydlwyd CbCDdC yn ffurfiol ym mis Ebrill 2021, yn cynnwys Arweinwyr y 10 Awdurdod Lleol yn Ne-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Casnewydd.

Mae’r CbC yn gyfrifol am gynllunio datblygu strategol, cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol a hyrwyddo lles economaidd ardal De-ddwyrain Cymru.

Ar hyn o bryd mae CbCDdC mewn cyfnod pontio, gan adeiladu strwythurau llywodraethu i baratoi ar gyfer dod yn gwbl weithredol ym mis Ebrill 2024 pan fwriedir iddo gymryd drosodd swyddogaethau Cydbwyllgor BDdPRC.

Fel rhan allweddol o strwythurau llywodraethu’r CbC, rhaid gwneud trefniadau i sicrhau bod trefniadau trosolwg a chraffu priodol ar waith i ddarparu craffu effeithiol ar y swyddogaethau a gyflawnir gan y CbC.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cynigion canlynol:

- Pob un o'r 10 Awdurdod Lleol i gytuno i benodi'r CTCh presennol, sydd ar hyn o bryd yn craffu ar Brifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC), i graffu ar CbCDdC dan gylch gorchwyl ar wahân (Atodiad 2).
- Cadarnhaodd y CTCh presennol ei gytundeb i wneud hyn (fel Atodiad 1) a gofynnir i’r 10 Awdurdod Lleol nawr geisio cymeradwyaeth ar gyfer y cynigion gan eu Cynghorau, gyda'r amod bod y CTCh ei hun yn adolygu'r cylch gorchwyl i sicrhau bod y trefniadau craffu yn gadarn, yn dryloyw ac yn atebol.
- Byddai angen cyfeirio unrhyw newidiadau dilynol i'r cylch gorchwyl yn ôl a'u cymeradwyo gan bob un o'r 10 Awdurdod Lleol a gynrychiolir ar y CTCh.

Cyfarfu'r CTCh ar 27 Gorffennaf 2023 a nododd ei gytundeb mewn egwyddor i'r cynnig.

Cynrychiolwyd Cyngor Dinas Casnewydd ar y CTCh gan Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg, Craffu a Rheoli Cyngor Dinas Casnewydd.

Cafodd yr adroddiad ei eilio gan y Cynghorydd Davies.

Penderfynwyd:

Cytunodd y Cyngor i benodi Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer CbCDdC.

10. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Cyn dechrau'r cwestiynau, gwnaeth yr Arweinydd y cyhoeddiadau canlynol i'r Cyngor:

Cynigiodd yr Arweinydd ei chydymdeimlad â'r rhai a oedd â theuluoedd yn Libya a oedd wedi dioddef y llifogydd diweddar.

Balchder yn y Porthladd
Hoffwn ddechrau drwy ddweud pa mor wych oedd gweld cymaint o bobl yn cefnogi ail benwythnos Balchder yn y Porthladd ar ddechrau'r mis hwn.

Roedd y penwythnos cyfan, gan gynnwys y parêd, yr ŵyl a'r digwyddiadau eraill, yn ddathliad gwych o'n cymuned LHDTCRhA+.

Siaradais â llawer o bobl a oedd mor hapus i allu profi'r digwyddiad hwn, ac yn bwysig, a oedd yn teimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain. Mae cynwysoldeb a derbyniad yn agweddau hanfodol ar gymeriad ein dinas lle mae pawb yn teimlo bod croeso iddynt ac yn cael eu cofleidio am bwy ydyn nhw. Mae'n dangos pam fod digwyddiadau fel hyn yn bwysig, ac rwyf eisoes yn edrych ymlaen at ddathliadau'r flwyddyn nesaf.

Gŵyl Fwyd
Mae ychydig dros bythefnos i fynd nes bydd Gŵyl Fwyd Casnewydd yn dychwelyd i ganol y ddinas, ac rwy'n falch iawn y bydd y digwyddiad eleni yn fwy nag erioed, gan gael ei gynnal dros dri diwrnod yn lle un.

Mae'r ŵyl wedi cael ei sefydlu fel un o uchafbwyntiau calendr digwyddiadau Casnewydd, ac rydym yn siŵr y bydd y rhaglen eleni yn boblogaidd gyda thrigolion, ymwelwyr a busnesau.

Mae'r ŵyl yn cychwyn gyda digwyddiad swper ar nos Wener 13 Hydref yn NP20 Bar a Kitchen yng Ngwesty Mercure.

Bydd cogydd nodedig yr ŵyl, Hywel Jones, yn mynd â phobl ar archwiliad coginio o fwyd Cymreig, Sioraidd ac Almaeneg gwych, i ddathlu cysylltiadau Casnewydd â'i dwy ddinas efell Kutaisi a Heidenheim.

Mae'r tocynnau ar gyfer y swper ar werth a gellir eu harchebu trwy wefan yr ŵyl fwyd.

Ddydd Sadwrn bydd y farchnad fwyd draddodiadol yng nghanol y ddinas, gydag adloniant stryd, arddangosiadau cogyddion ym Marchnad Casnewydd, pentref fegan a llysieuol yn Sgwâr John Frost, ac mae rownd derfynol y gystadleuaeth Cogydd Ifanc yn dychwelyd. Yn olaf, ar y dydd Sul bydd digwyddiad newydd ar gyfer yr ŵyl, gyda cherddoriaeth fyw a gwerthwyr bwyd stryd ar y Stryd Fawr.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r bariau lleol Le Pub, McCanns, a Madame JoJo i greu rhaglen wych o adloniant ar gyfer y digwyddiad ar y dydd Sul, ac rydym yn siŵr y bydd hynny'n ychwanegiad poblogaidd at raglen yr ŵyl.

Ychwanegodd yr Arweinydd na ddylid tanbrisio'r effaith ar yr economi leol ac anogodd drigolion i fynd i'r ŵyl.

Arcêd y Farchnad
Rwy'n falch o gadarnhau bod y rhan derfynol o waith adfer yn arcêd hanesyddol Marchnad Casnewydd bellach ar y gweill.

Mae'r prosiect adfer, a ddechreuodd yn ôl yn 2018, wedi cynnwys y Cyngor yn trawsnewid yr arcêd a oedd unwaith yn dirywio yn atyniad masnachol bywiog a hyfyw yng nghanol y ddinas.

Bydd cam hwn y gwaith yn cynnwys gwaith adnewyddu mewnol i nifer o'r unedau yn yr arcêd, yn ogystal â'r gwaith adnewyddu allanol sy'n weddill.

Ni fyddai wedi bod yn bosibl trawsnewid Arcêd y Farchnad heb gefnogaeth hael Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, CADW a chronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

Mae placiau wedi'u gosod ar naill ben yr Arcêd ac mae'r gefnogaeth barhaus yn ein galluogi i gynnal gweithgareddau a digwyddiadau yn ein canolfan dreftadaeth dros dro yn Uned 14 ac i reoli a chynnal a chadw'r safle yn y blynyddoedd i ddod.

Grantiau Busnes
Rydym hefyd newydd gyhoeddi newyddion da pellach i'n busnesau a'n heconomi gyda chynllun grantiau busnes newydd.

Ers sawl blwyddyn, mae'r Cyngor wedi rhoi grantiau i fusnesau bach a chanolig yn y ddinas i helpu gyda chostau busnesau newydd a chostau eraill ac mae hyn yn parhau.
Diolch i gyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, fel rhan o'i hagenda ffyniant bro, rydym bellach yn gallu cynnig grantiau rhwng £25,000 a £75,000 tuag at fuddsoddiad cyfalaf.

Gwyddom fod busnesau wedi wynebu heriau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac felly rydym eisiau parhau i gynnig cymorth pryd bynnag a sut bynnag y gallwn. Mae'r rhaglen cyflymu twf wedi'i hanelu at gwmnïau sefydledig neu newydd i sefydlu safleoedd neu i fusnesau presennol y ddinas gyflymu eu cynlluniau ar gyfer twf.

Mae darpar ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i gysylltu â thîm gwasanaethau busnes y Cyngor, a all drafod y broses gyda nhw ac asesu eu cymhwysedd.

Cartref Cŵn
Rwy'n falch o ddweud bod Cartref Cŵn Dinas Casnewydd wedi ennill aur mewn dau gategori yng ngwobrau PawPrints RSPCA Cymru 2023 am eu gwaith gyda chŵn strae.

Dyma'r ddeuddegfed flwyddyn i'r tîm gael cydnabyddiaeth gyda gwobr aur yn y categori cŵn strae am ei waith caled yn gofalu am y cŵn sydd dan ei ofal. Enillodd y tîm ail wobr aur hefyd am ei waith gyda chynelu cŵn strae.

Rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i longyfarch y tîm ar y gwaith gwych y mae'n ei wneud.

Wal Graffiti
Roeddwn yn falch o fod yn rhan o ddadorchuddio wal graffiti newydd ym Mharc Glebelands yn ddiweddar.

Mae'r gofod pwrpasol yn rhoi lle i artistiaid arddangos eu gwaith, tra'n dod â sblash o liw i'r ardal, ac mae eisoes yn boblogaidd iawn.

Nod dynodi gofod graffiti cyfreithiol yw annog arloesedd a chreadigrwydd mewn amgylchedd diogel, tra'n lleihau lefel y graffiti mewn ardaloedd anawdurdodedig.
Diolch i'r cynghorwyr ward yn Sain Silian a'r Cynghorydd Yvonne Forsey, yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth, sydd wedi gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru a helpodd i ddod â'r prosiect hwn yn fyw.

Strategaeth Ddigidol

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei strategaeth ddigidol newydd sy'n diffinio'r dyheadau digidol ar gyfer y ddinas dros y pum mlynedd nesaf ac yn nodi sut y bydd y Cyngor yn defnyddio technoleg i drawsnewid y ffordd y caiff ei wasanaethau eu darparu.

Bydd yn cefnogi ac yn gwella lles trigolion a gweithwyr, yn ogystal â galluogi busnesau i ffynnu yn y ddinas yn seiliedig ar bedair thema allweddol: trawsnewid digidol, sgiliau digidol a chynhwysiant, data a chydweithio a seilwaith digidol a chysylltedd.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld rhai o'r newidiadau mwyaf mewn cymdeithas a sut mae pobl yn rhyngweithio â gwasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd wedi amlygu anghydraddoldebau yn ein cymunedau o ran mynediad i dechnoleg ddigidol a'r sgiliau angenrheidiol i'w defnyddio'n effeithiol.
Nod y strategaeth ddigidol newydd yw mynd i'r afael â'r materion hyn a chefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion a nodir yn y cynllun corfforaethol.

Un o'r mentrau yw hyb canol y ddinas newydd sy'n arddangos y dechnoleg gynorthwyol ddiweddaraf.

Wedi'i agor ym Marchnad Casnewydd yn ddiweddar, mae'r hyb yn lle y bydd pobl yn gallu siarad ag aelodau o dîm therapi galwedigaethol y Cyngor a chael cyngor am ddefnyddio'r dechnoleg gynorthwyol ddiweddaraf, gan helpu trigolion i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel gartref.

Naid y Teigrod
Dyma nodyn atgoffa y bydd y Teigrod, un o dimau arddangos parasiwt blaenllaw'r Fyddin Brydeinig yn glanio yng Nghasnewydd y dydd Sadwrn hwn.

Bydd y tîm yn glanio yn Rodney Parade ychydig cyn cic gyntaf gêm Y Dreigiau v Y Gweilch.

Roedd i fod i ddod i Gasnewydd fel rhan o ddathliadau diweddar Diwrnod Cenedlaethol Lluoedd Arfog Cymru, ond yn anffodus nid oedd y tywydd yn ffafriol, felly croesi bysedd ar gyfer y penwythnos hwn.

Mae'r tîm bob amser yn rhoi arddangosfa drawiadol, ac mae'n argoeli i fod yn sioe a hanner. Mae hefyd yn gyfle gwych i ddysgu mwy am yrfa gyda'r Fyddin. Gwnewch yn siŵr bod gennych eich tocynnau ar gyfer y gêm!

Cwestiynau i'r Arweinydd:

Y Cynghorydd Evans:
O ran Llywodraeth Cymru'n gorfodi 20mya yn ddiweddar, cyflwynwyd e-ddeiseb i'r Senedd a oedd wedi derbyn dros 40,000 o lofnodion, yn gofyn am ddiddymu'r terfyn cyflymder 20mya. Mae'r ffigyrau'n cynyddu, a dangosodd amcangyfrif ceidwadol bod dros 40,000 o lofnodion gan drigolion Casnewydd. A fyddai'r Arweinydd yn gwrando ar drigolion Casnewydd ac yn adolygu'r polisi hwn ac yn sicrhau arwyddion cyson.

Ymateb:
Dywedodd yr Arweinydd fod 120 o wledydd wedi llofnodi datganiad yn cydnabod bod lleihau cyflymder wedi gwella diogelwch ar y ffyrdd yn 2020. Felly nid yw'r terfyn cyflymder hwn yn unigryw i Gymru. Yn y DU, mae 28 miliwn o bobl eisoes yn byw mewn awdurdodau lleol lle derbyniwyd 20mya fel y terfyn cyflymder. Bydd yr Alban yn dilyn erbyn 2025. Yn Lloegr, mae gan lawer o gymunedau gan gynnwys Norwich, Tunbridge, a Chichester derfynau 20mya eisoes. Yn Ewrop, Sbaen, yr Iseldiroedd, yr Almaen, Awstria, y Ffindir, a Sweden defnyddir 30kmph yn helaeth mewn ardaloedd trefol ac adeiledig. Bydd yr Arweinydd yn parhau i adolygu'n rheolaidd a bydd yn ystyried unrhyw geisiadau am ddiwygio neu eithrio'r terfyn cyflymder 20mya.

Y Cynghorydd Morris:
O ran penodi Rheolwr Canol y Ddinas yn ddiweddar, a oedd yr Arweinydd o'r farn bod yr holl weithdrefnau wedi'u dilyn.

Ymateb:
Dywedodd yr Arweinydd nad yw'r cynghorwyr yn cael unrhyw ran mewn recriwtio swyddogion dan y lefel Pennaeth Gwasanaeth a gofynnodd i'r Cynghorydd Mogford gyfeirio ei gwestiwn at Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig neu'r Swyddog Monitro a fyddai'n hapus i ymateb.

Dywedodd y Prif Weithredwr nad yw'n briodol trafod ymholiadau staffio yng nghyfarfod y Cyngor
Llawn ac y gallai'r cynghorwyr gyfeirio eu cwestiynau at y swyddogion yn breifat. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oedd modd trafod swyddogion mewn cyfarfodydd cyhoeddus oherwydd deddfwriaeth diogelu data.

Y Cynghorydd Whitehead:
Cyfeiriodd y Cynghorydd Whitehead at adroddiadau gan drigolion yn ei Ward ynghylch diffyg ymateb gan Home Options a gwasanaethau eraill fel Gwasanaethau'r Ddinas. Gofynnodd y Cynghorydd Whitehead i'r swyddogion roi ymateb i drigolion i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt neu i roi ateb safonol i gadarnhau y byddai ymatebion yn cael eu hoedi mewn cyfnodau prysurach.

Ymateb:
Dywedodd yr Arweinydd fod y Cynghorydd Whitehead wedi codi mater pwysig a oedd yn effeithio ar drigolion. Roedd yr Arweinydd yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol ar draws y Cyngor a'i bod yn bwysig bod angen ymateb prydlon ar drigolion. Nodwyd bod yr Aelodau wedi profi rhwystredigaeth wrth ddefnyddio systemau ar y we. Roedd yr Arweinydd yn falch o gyhoeddi bod buddsoddiad i wella gwefan a mynediad Cyngor Dinas Casnewydd ar y gweill, a fyddai'n helpu trigolion a Chynghorwyr hefyd. Mae galw penodol am Home Options, gan roi pwysau eithafol ar y gwasanaeth, a allai olygu oedi mewn ymatebion. Roedd yr Arweinydd yn falch o ddweud, dan arweiniad yr Aelod Cabinet, fod y system Home Options yn cael ei hadolygu a bod Pennaeth Gwasanaeth rhagorol ar waith sy'n arwain ar sicrhau gwelliannau i ymgeiswyr. Mae'r Arweinydd yn croesawu adborth ar faterion penodol mewn perthynas ag ymatebion nad ydynt yn amserol a chanmolodd y Penaethiaid Gwasanaeth yng Nghyngor Dinas Casnewydd am eu gwaith caled.

Y Cynghorydd Bright:
Gofynnodd y Cynghorydd Bright a allai'r Arweinydd roi trosolwg o'r gwaith ar Fargen Ddinesig P-RC, a'r cynnydd a gynlluniwyd yn dilyn yr adroddiad a ystyriwyd gan y Cyngor heno.

Ymateb:
Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Bright am ei gwestiwn ac roedd o'r farn y byddai aelodau etholedig a oedd yn anghyfarwydd â'r strwythur a'r rôl bwysig a chwaraeodd i Gyngor Dinas Casnewydd. Rhoddodd yr Arweinydd drosolwg o Fargen Ddinesig P-RC sy'n cynnwys y 10 Awdurdod Lleol yn Ne-ddwyrain Cymru: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg. Ar draws yr ardal, mae poblogaeth o tua 1.5m, sy'n cyfateb i tua hanner poblogaeth Cymru.

Dyma ranbarth amrywiol gyda dwy ddinas: Caerdydd a Chasnewydd, amrywiaeth o drefi marchnad, cymunedau gwledig, a llain arfordirol. Yn 2016, sefydlwyd Bargen Ddinesig gwerth £13bn P-RC, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a 10 Awdurdod Lleol De-ddwyrain Cymru. Roedd gan P-RC sawl maes clwstwr blaenoriaeth i fuddsoddi ynddynt a'u datblygu. Y meysydd hyn yw'r clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd, technoleg ariannol, seiberddiogelwch a dadansoddeg, yr economi greadigol,

technoleg feddygol, chwaraeon, ynni, a'r amgylchedd. Yn y grŵp hwn mae sawl maes ffocws allweddol, gan gynnwys sgiliau, digidol, eiddo ac arloesedd. Darparodd £735m o'r gronfa ddatblygiadau diriaethol o fewn metro De-ddwyrain Cymru. Mae cronfa fuddsoddi ehangach o £495m yn eistedd gyda P-RC ac yn cael ei buddsoddi ar draws y rhanbarth mewn ystod eang o brosiectau ac mae ar y trywydd iawn i ychwanegu £179m o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) at economi'r rhanbarth bob blwyddyn. Roedd £44m o hyn drwy'r Prosiect Ffowndri Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yng Nghasnewydd. Mae cronfeydd newydd wedi'u sefydlu, gan gynnwys cronfa safleoedd strategol, cronfa bwlch hyfywedd tai, cronfa her adeiladu cyfoeth lleol a chronfa arloesi. Mae P-RC yn berchen ar ddau gwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, ochr yn ochr â phortffolio amrywiol o fuddsoddiadau. Yn ddiweddar, buddsoddodd P-RC mewn hen orsaf bŵer glo 500 erw, sydd yng nghamau cynnar ailddatblygiad cynhwysfawr ar gyfer cynhyrchu ynni glân domestig. Mae hyn wedi llwyddo i sicrhau dwy Wobr Cronfa Cryfhau Lleoedd Ymchwil ac Arloesi yn y DU.

Heddiw roedd y Cyngor wedi ystyried y CbC, ac mae'n bwysig nodi nad oes gan Gymru bwerau deddfwriaethol sylfaenol i greu awdurdodau cyfunol, ond trwy ddarn o waith a wnaed gan Lywodraeth Cymru, roedd y fframwaith ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru wedi arwain at ddeddfwriaeth ar gyfer CbCau. Mae'r endidau corfforaethol newydd hyn wedi'u hadeiladu o amgylch pedwar rhanbarth yng Nghymru ac maent yn adlewyrchu'r fargen ddinesig a thwf. Mae P-RC yn ymgymeriad gwirfoddol, tra bod y CbC yn ofyniad statudol. Mae'r trefniant hwn yn rhoi ystod o bwerau i gyrff rhanbarthol, gan eu rhoi ar yr un lefel â chyrff cyhoeddus eraill. Bydd y pontio o P-RC i'r CbC yn golygu y bydd y CbC yn dod yn gorff cyhoeddus sy'n endid cyfreithiol corfforaethol gyda nifer o ddyletswyddau corfforaethol, ochr yn ochr â'r gofyniad statudol ar gyfer dyletswydd lles economaidd, cynllunio trafnidiaeth a defnydd tir rhanbarthol.

Roedd yr Arweinydd yn falch o ddweud bod canfyddiadau newydd o Fynegai Cystadleurwydd y DU yn dangos cynnydd mewn cystadleurwydd yn y rhanbarth cyfan ac o fewn hyn roedd tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o gynnydd mewn cystadleurwydd i Gasnewydd. Dyma effaith 10 awdurdod lleol yn dod at ei gilydd er budd y rhanbarth.

11. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

<u>Cwestiwn 1 - Yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai</u>

Y Cynghorydd Debbie Jenkins:
Nod y cynllun corfforaethol yw gwneud Casnewydd yn Ddinas decach, fwy diogel a ffyniannus. Gan fod Rheoleiddio yn rhan o'ch portffolio, a allwch ddiweddaru'r Cyngor ar yr hyn y mae tîm Diogelu'r Cyhoedd yn ei wneud i gyflawni'r nodau strategol hyn?

Ymateb gan y Cynghorydd James Clarke:
Mae ein timau Diogelu'r Cyhoedd yn cynnal ystod eang o weithgareddau ar wahanol gyfundrefnau, felly hoffwn roi rhywfaint o fanylion am weithgareddau diweddar ar bob un o'r meysydd hyn i ddangos y gwaith gwych a wneir gan swyddogion y Cyngor.

<u>Ynglŷn â Safonau Masnach:</u>
Mae ymchwiliadau'n ymwneud â nwyddau ffug a bridio cŵn anghyfreithlon yn parhau. Mae'r gwerth twyll cyfun yn fwy na £5 miliwn.

Yn ystod ymgyrch ddiweddar i orfodi tybaco anghyfreithlon yn Commercial Street, cynhaliodd swyddogion wyliadwriaeth ar siopau tybaco anghyfreithlon gan arwain at atafaeliadau a phedwar arestiad. Gwnaeth y swyddogion gau pum siop gan ddefnyddio Gorchmynion Atal Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Mae dyfeisiau fêpio tafladwy anghyfreithlon yn gyffredin; mae 3,370 o fêps tafladwy anghyfreithlon wedi'u hatafaelu ac mae nifer o erlyniadau ar y gweill mewn perthynas â fêps anghyfreithlon a fêps a werthwyd i bobl dan oed.

Mae nifer o ymchwiliadau i weithgareddau masnachwyr twyllodrus / teithiol ar wahanol gamau cwblhau.

Mae'r swyddogion yn cynnal archwiliad wedi'i asesu o ran risg mewn busnesau bwyd ledled y ddinas ac mae prosiect ar y gweill i fynd i'r afael ag eiddo rhent preswyl a safleoedd masnachol nad ydynt yn bodloni safonau perfformiad ynni derbyniol.

Ynglŷn ag Iechyd yr Amgylchedd
Mae'r Adran yn parhau i gefnogi digwyddiadau diogel, darparu rheolaethau bwyd ac ati. Mae'r gwasanaeth yn targedu busnesau lle mae arferion amhriodol fel defnyddio offer anniogel. Er enghraifft, defnyddio offer nwy cegin sydd wedi'i drawsnewid yn anghyfreithlon i nwy petrolewm hylifedig, gan achosi risg o ffrwydrad. Mae mwy o hysbysiadau gwahardd wedi'u cyflwyno yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, na'r pedair blynedd diwethaf.

Mae nifer o hysbysiadau gwella hylendid bwyd, hysbysiadau gwahardd a chamau atafaelu, cadw a dinistrio bwyd wedi cael eu gweithredu. Mae dau erlyniad wedi cael eu cynnal.

Ynglŷn â Thrwyddedu:
Mae'r Adran hon yn parhau i fonitro busnesau trwyddedig. Mae camau wedi'u cymryd yn ymwneud â thafarndai a chlybiau nos yn torri eu hamodau. Mae gwiriadau gyda'r fasnach dacsis yn parhau. Enghreifftiau o ddigwyddiadau sydd wedi digwydd fyddai bod y tîm wedi ymchwilio i un gyrrwr tacsi a chanfod ei fod yn dweud celwydd am drosedd goryrru. Cafodd y gyrrwr hwnnw ddedfryd ohiriedig a dirwy wedi hynny. Roedd dau yrrwr tacsi wedi gwrthod caniatáu i gŵn tywys fod yn eu ceir. Cafodd trwyddedau'r gyrwyr hyn eu hatal hyd nes iddynt gael eu hailhyfforddi.

Ynglŷn â Diogelwch Cymunedol:
Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn weithgar yng nghanol y ddinas ac yn delio â niwsans sŵn, materion iechyd a diogelwch, bu digwyddiadau o dipio anghyfreithlon hefyd lle mae Hysbysiad Amddiffyn Cymunedol wedi'i gyhoeddi mewn rhai achosion.

Cyhoeddwyd Hysbysiad Amddiffyn Cymunedol mewn perthynas â phroblem tipio anghyfreithlon ar raddfa fawr ym Maesglas ac yna Hysbysiad Deddf Diogelu'r Amgylchedd a arweiniodd at glirio 2 dunnell o sbwriel.

Mae 139 o gyfarfodydd Adran 115 y Ddeddf Trosedd ac Anrhefn wedi'u mynychu.
Hoffwn orffen trwy gydnabod holl waith caled ac ymroddiad y Tîm.

Cwestiwn 2 - Yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol

Y Cynghorydd Emma Stowell-Corten:
A allai'r Aelod Cabinet amlinellu sut mae'r strategaeth ddigidol newydd yn cefnogi ein nod o ddod yn ddinas ddata?

Ymateb gan y Cynghorydd Dimitri Batrouni:
Mae nod y Cyngor o ddod yn Ddinas Ddata yn cydnabod gwerth data ac yn cefnogi'r angen i harneisio'r ystorfeydd helaeth o ddata a gedwir gan Gyngor Dinas Casnewydd, ein partneriaid cyhoeddus, a buddsoddwyr busnes presennol ac yn y dyfodol; gan sicrhau ein bod ni fel dinas yn cael ein gyrru gan ddata a bod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

Mae datblygiadau fel y Sefydliad Technoleg Cenedlaethol yn allweddol i gyflawni ein

dyheadau Dinas Ddata gyda phartneriaid cyhoeddus a phreifat. Mae'r Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer 2022-2027 yn ategu'r gwaith o gyflawni'r nod hwn drwy ei thema Data a Chydweithio i gefnogi gwneud penderfyniadau, darparu gwasanaethau a chynllunio trwy ddefnydd gwell a mwy effeithiol o ddata; gan sicrhau bod protocolau diogelu data, diogelwch gwybodaeth a rhannu priodol ar waith i hwyluso mynediad i ddinasyddion, busnes ac ymwelwyr at ddata sydd ar gael yn rhwydd, sy'n gyfredol ac sy'n ystyrlon.

Cwestiwn 3 - Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth

Y Cynghorydd Farzina Hussain:
Wrth i'r gwaith o weithredu casgliadau sbwriel bob tair wythnos barhau, a all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gam 1 y symudiad i gasgliadau gwastraff gweddilliol bob tair wythnos ac amlinellu cynnydd tuag at gam 2 y symudiad i gasgliadau bob tair wythnos?

Ymateb gan y Cynghorydd Forsey:
Dechreuodd Cam 1 y gwaith o gyflwyno'r casgliadau bob tair wythnos ym mis Mehefin eleni ac roedd yn cynnwys tua 11,500 o eiddo. Mae'r tîm gwastraff wedi bod yn monitro casgliadau dros y misoedd diwethaf, hyd yn hyn mae'r canlyniadau'n dangos y canlynol:

- Gostyngiad o 15% yn swm y gwastraff gweddilliol a gasglwyd o'r eiddo hyn. Os caiff hyn ei ailadrodd ar draws Casnewydd fel rhan o'r broses o gyflwyno'n ehangach, bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn bwrw'r targed ailgylchu o 70%, sef prif nod y newid hwn.
- Mae ein tîm ymgysylltu â gwastraff ar gael i gynorthwyo trigolion a allai gael trafferth rheoli eu gwastraff. Ers i'r gwaith cyflwyno ddechrau, mae wedi derbyn 84 o ymholiadau ac wedi cwblhau 91 o ymweliadau/cysylltiadau rhagweithiol eraill.
- O ran cydymffurfio â'r polisi 'dim gwastraff gormodol', hyd yma dim ond 166 o lythyrau rhybuddio y mae'r tîm gwastraff wedi'u cyhoeddi oherwydd gwastraff ychwanegol a gyflwynwyd gan drigolion, gyda dim ond saith yn cyrraedd y cam nesaf oherwydd ymddygiad ailadroddus. O ystyried y ffaith bod mwy na 35,000 o gasgliadau bob tair wythnos wedi digwydd dros yr un cyfnod, mae hyn yn cynrychioli lefelau cydymffurfio dros 99%.

Yn gyffredinol, mae'r rhain yn ganlyniadau ardderchog sy'n dangos bod y system newydd yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig a bod trigolion yn ymdopi'n dda â'r newidiadau.

Mae'r tîm gwastraff yn paratoi ar gyfer ail gam cyflwyno'r prosiect, a fydd yn cyflwyno casgliadau bob tair wythnos i lawer o drigolion Casnewydd. Bydd mwy o fanylion ar gael yn fuan ar wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, ond mae disgwyl i gasgliadau bob tair wythnos ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu ddechrau rhwng ail ran mis Hydref a dechrau mis Tachwedd. Mae casgliadau gwastraff gardd yn dod i ben yn ystod misoedd y gaeaf ddiwedd mis Tachwedd, ond byddant yn parhau gyda'r amlder presennol tan hynny. Bydd casgliadau'n digwydd bob tair wythnos ar ôl iddynt ailddechrau ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Bydd pob trigolyn yn derbyn llythyr a thaflen drwy'r post yn cadarnhau'r newidiadau, ym mis Hydref.

Cwestiwn 4 - Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion)

Gan nad oedd yr Aelod Cabinet yn bresennol, byddai'r ymateb yn cael ei roi'n ysgrifenedig i'r Cynghorydd T Harvey a'i gynnwys yn y Cofnodion.

Y Cynghorydd Timothy Harvey:
Yng nghyd-destun cryn sylw yn y cyfryngau at iechyd a gofal cymdeithasol, a all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gefnogi ein trigolion yng Nghasnewydd am hirach yn eu cymunedau?

Ymateb gan y Cynghorydd Jason Hughes:
Mae sicrhau bod gwasanaethau oedolion Casnewydd yn barod ar gyfer anghenion gofal cymdeithasol y ddinas yn weithgaredd blwyddyn gyfan oherwydd pwysau gweithlu ar draws pob gwasanaeth a chynnydd mewn atgyfeiriadau cymhleth. Rydym yn gweithio ar draws rhanbarth Gwent i sicrhau'r adnoddau a'r cyfleusterau mwyaf posibl i'n trigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth. Mae 92% o wasanaethau oedolion yn canolbwyntio ar gefnogi unigolion i aros yn y gymuned/gartref ac osgoi derbyniadau i'r ysbyty.